

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Capaldi
Prif Weithredwr
Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL

Ebrill 2020

Annwyl Nick

Cymorth Grant 2020/21 – Llythyr Cyllid dros dro

Rwy'n ysgrifennu atoch gyda'r ffigurau Cymorth Grant dros dro ar gyfer 2020/21, wedi eu cyflwyno yn y tabl isod. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar gyllideb gyhoeddus Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21 ond dylech fod yn ymwybodol, oherwydd yr argyfwng COVID-19, a'r angen i newid blaenoriaethau cyllid er mwyn cynnal swyddogaethau hanfodol yng Nghymru, mae'n bosibl y bydd yr holl gyllid gan Lywodraeth Cymru yn newid wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Wrth gwrs, byddwch yn cael eich hysbysu am unrhyw newidiadau i'r cyllid cyn gynted ag y bo modd.

Nodwch hefyd ein bod wedi cymeradwyo'r cais i drosglwyddo hyd £1.166 miliwn ar ddiwedd 2019/20 i'r flwyddyn nesaf, ar yr amod bod 100% o'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio fel rhan o ymateb brys Cyngor Celfyddydau Cymru i COVID-19, ac yn ddarostyngedig ichi fonitro eich arian yn agosach yn ystod y flwyddyn i sicrhau nad yw'r sefyllfa hon yn codi eto.

Ni ddylid ystyried taliadau gan Lywodraeth Cymru yn ymrwymiad i lefel benodol o gyllid ar gyfer y flwyddyn. Yn hytrach maent yn daliadau Cymorth Grant, a byddant yn cael eu diwygio yn unol â'r sefyllfa gyffredinol o ran cyllid os oes angen gwneud newidiadau i'r gyllideb gyhoeddus.

Gofynnir ichi anfon proffil eich hawliad am Gymorth Grant ar gyfer 2020/21, yn seiliedig ar y ffigurau hyn, cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir,

Dr Nicola Guy
Dirprwy Gyfarwyddwr
Yr Isdran Diwylliant a Chwaraeon

Gwariant

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU	Cyllideb 2020/21 £'000
Refeniw – Gwariant/Costau Gweithredu Presennol	31,923
Arian nad yw'n arian parod – Dibrisiant*	119
Y Cyngor Celfyddydau/CMC**	355
Gwariant Cyfalaf Ychwanegol ***	400
Cyfanswm	32,797

Mae manylion gwariant/costau gweithredu i'w gadarnhau.

* Mae hwn yn eitem nad yw'n arian parod ac nid yw ar gael i'w dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn

** Mae'r dyraniad o £355,000 o gyllid cyfalaf yn cynnwys £300,000 ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru o dan ei chytundeb hirdymor gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r £55,000 arall yn cyllido costau cyfalaf y Cyngor Celfyddydau ei hun

*** Mae hyd at £150,000 o'r dyraniad hwn ar gyfer Cofeb/Digwyddiadau coffáu Robert Owen.

CYFANSWM y Cymorth Grant 2020/21

£32,797,000

Telerau ac Amodau cyllid Cymorth Grant:

Mae cytundeb cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru gyda Llywodraeth Cymru (y Ddogfen Fframwaith) yn amlinellu manylion y berthynas noddi, a thelerau ac amodau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu Cymorth Grant i Gyngor Celfyddydau Cymru fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae cyllid Cymorth Grant yn cael ei ddarparu ar gyfer Cyngor Celfyddydau o dan adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r Ddogfen Fframwaith hefyd yn amlinellu amryw ofynion gweithredol ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau'r Llywodraeth y mae'n rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru gydymffurfio â nhw, yn ogystal â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ei hun fel corff siartredig, elusen gofrestrdig a sefydliad cyhoeddus yng Nghymru. Fel y nodwyd yn y Ddogfen Fframwaith, Isadran Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru (Cangen y Celfyddydau) yw'r adran noddi ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, ac mae'n monitro ei gynnydd yn erbyn targedau drwy gyfarfodydd chwarterol.